


## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydberthynol i strategaeth Cymraeg 2050:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: [Safonau.Standards@llyw.cymru](mailto:Safonau.Standards@llyw.cymru)):

**02/12/2023**

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050 rhaglen waith 2021-2026

Rydym wedi sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni **Mwy na Geiriau: Cynllun Pum Mlynedd 2022-2027** sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac a nododd ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl fel un o'r grwpiau blaenoriaeth. Ein gweledigaeth ar gyfer "Mwy na Geiriau" yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano, gan arwain at ganlyniadau gwell. Mae Fframwaith Mwy na Geiriau yn ceisio sbarduno cynnydd drwy ganolbwyntio ar dair thema cynllunio a pholisïau Cymraeg gan gynnwys data; cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu nawr ac yn y dyfodol; a rhannu arferion gorau a dull sy'n galluogi. Wrth wraidd y Fframwaith mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau i ofyn amdanynt.

Mae derbyn triniaeth yn eu mamiaith yn gallu bod yn arbennig o bwysig i bobl sy'n hunan-niweidio neu sydd â meddyliau hunanladdol – ac i'r bobl o'u cwmpas. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffatriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae sicrhau bod gwasanaethau hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, a'u bod yn cael eu cynnig yn rhagweithiol i bobl sy'n derbyn cymorth, yn hanfodol.

Yr amcanion yn y strategaeth ddrafft yw lleihau hunanladdiad a hunan-niweidio. Caiff hyn ei gyflawni drwy gasglu a dadansoddi tystiolaeth a gweithio gyda sefydliadau partner/gwasanaethau a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio, neu sydd wedi'u heffeithio ganddynt. Rhaid i bob sefydliad iechyd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ystyried Safonau'r Gymraeg a bydd yn ofynnol i wasanaethau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru i'w bodloni hefyd.

Yng nghyd-destun yr uchod, ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol o ran cyfrannu at Cymraeg 2050, i'r perwyl bod y strategaeth ddrafft,

ynghyd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl ddrafft i Gymru yn ceisio ehangu a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau. Gyda dyletswyddau'r Gymraeg yn cyd-fynd â'r gwelliannau hyn, gallwn ddisgwyl gweld mwy o wasanaethau yn Gymraeg, mwy o bolisiâu yn y Gymraeg a mwy o ddeunydd hyrwyddo yn Gymraeg. Fel y cyfryw, mae hyn yn gyson â'r uchelgeisiau i *gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun*.

**Noder:** Mae'r asesiad o effaith hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Mae Iechyd Meddwl yn ehangach wedi cael ei ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ym maes Iechyd Meddwl fel rhan o'r strategaeth Iechyd Meddwl newydd.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

#### **Nodau'r Strategaeth – mewn perthynas â'r Gymraeg**

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg<sup>1</sup> (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau<sup>2</sup> sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati).

Bydd y polisiâu a'r rhaglenni sy'n sail i'r strategaeth ddrafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Er enghraifft, bydd effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg oherwydd byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn cefnogi egwyddorion Mwy na Geiriau drwy gynnig rhagweithiol, gyda dewis iaith yn cael ei gofnodi a'i rannu rhwng gwasanaethau. Bydd adnoddau a hyfforddiant ar gael yn Gymraeg, a bydd argaeledd a chyhoeddi ymgyrchoedd gwybodaeth a chyfathrebu dwyieithog yn cynyddu gwelededd y Gymraeg, yn ogystal â gwneud y materion/gwasanaethau yn fwy hygyrch i siaradwyr Cymraeg.

Amcan 1 yn y strategaeth ddrafft yw cryfhau'r sylfaen dystiolaeth sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio, gan roi cyfle i gael gafael ar wybodaeth a allai nodi

---

<sup>1</sup> Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

<sup>2</sup> Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

cysylltiadau rhwng y Gymraeg, hunan-niweidio a hunanladdiad, a galluogi polisïau a chamau gweithredu lliniarol i gael eu cyflwyno.

Bwriad Amcan 3 yw darparu camau atal, ymyrraeth a chymorth cyflym ac effeithiol i'r grwpiau hynny mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i hunanladdiad a hunan-niweidio drwy'r lleoliadau y maent yn ymwneud â nhw fwyaf. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ac addasu polisïau a gwasanaethau i sicrhau bod cymorth cyfatebol yn cael ei ddarparu; gan gynnwys cymunedau gwledig a chymunedau lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith.

Fel rhan o amcan 4 yn y strategaeth ddrafft, lle byddwn yn ceisio *gwella sgiliau, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio a'i achosion ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau a allai ddod i gysylltiad â phobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio*, byddwn yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu mewn sawl iaith, gan gynnwys y Gymraeg.

Mae'n annhebygol y bydd gan grwpiau'r Gymraeg fwy o ddiddordeb penodol yn y strategaeth ddrafft nag unrhyw grŵp arall. Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac nid oes unrhyw beth sy'n cael ei gynig yn y canllawiau yn tansellio hyn, neu'n mynnu bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn Saesneg yn unig, nac yn atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg. Rhaid i bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yng Nghymru weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio eu gwasanaethau i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis personol.

### **Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?**

Byddwn yn sicrhau bod yr holl bolisiau, gweithredoedd, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad yng Nghymru yn gyson â Safonau'r Gymraeg a Cymraeg 2050, sy'n nodi ein dull hirdymor o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae dyletswydd hefyd ar wasanaethau iechyd i gyflawni eu dyletswyddau iaith Gymraeg. Mae cynllun newydd "Mwy na Geiriau" wedi'i lunio yn y cyd-destun fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, ac yn cael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano, gan arwain at ganlyniadau gwell (Cynnig Rhagweithiol). Mae cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu nawr ac yn y dyfodol yn thema allweddol yn y cynllun Mwy na Geiriau newydd. Yn y tymor byr, mae modd cyflawni llawer drwy ganolbwyntio ar y rhai sydd eisoes â sgiliau Cymraeg ond heb yr hyder i'w defnyddio. Rydym felly'n gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu dysgu Cymraeg ymhellach a darparu amgylchedd cadarnhaol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Cynhaliodd swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi adolygiad o'r Gymraeg ac unrhyw gysylltiadau â hunanladdiad a hunan-niweidio, heb nodi unrhyw gysylltiadau.

Mae swyddogion hefyd wedi adolygu crynodeb o'r ymatebion yn Ymateb i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth hunanladdiad, pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad a'r rhai mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol bod y canllawiau ar gael yn ddwyieithog. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu darparu yn ddwyieithog hefyd a phwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaeth cyswllt cenedlaethol yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.

Mae swyddogion hefyd wedi edrych ar enghreifftiau o arfer da o ran darpariaeth Gymraeg ac wedi tynnu sylw at y ffaith bod fframwaith NYTH yn enghraifft dda o'r Gymraeg yn cael statws cyfartal. Bydd swyddogion yn defnyddio fframwaith NYTH fel enghraifft o arferion gorau wrth weithredu'r holl bolisïau, gweithredoedd, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hunan-niweidio a hunanladdiad yng Nghymru.

## **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Bydd cwestiynau safonol ynghylch effaith y polisi ar y Gymraeg yn cael eu gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol. Mae Safonau'r Gymraeg a osodir ar Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddi roi ystyriaeth lawn wrth wneud penderfyniadau polisi i unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg, ym mhob maes polisi, er mwyn sicrhau bod bolisïau mwy cadarn ar waith sy'n cyd-fynd â'r dyhead o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hefyd, mae'n sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i bolisïau Llywodraeth Cymru a dim effeithiau niweidiol ar y Gymraeg.

## **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni strategaeth sy'n datblygu ar y gwaith yn y maes hwn hyd yma, byddwn yn canolbwyntio ar y chwe amcan allweddol a restrwyd yn y strategaeth. I gyd-fynd â'r rhain, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu (sy'n amlinellu gweithgareddau manwl a fydd yn digwydd fel rhan o'r amcanion) a fframwaith gwerthuso, a fydd yn nodi sut y bydd cynnydd yn erbyn ein hamcanion yn cael ei gyflawni.